

Ehangu Mynediad

Amcan: *Sicrhau cynhwysiant, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch*

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur gwell mynediad a dilyniant i bobl mewn lleoliadau lle y mae cyfleoedd o'r fath y brin:

- 1. Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13.**

Cynigion:

Rydym yn disgwyl cadw'r Mesur Cymunedau yn Gyntaf, yn dibynnu ar sut mae'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn datblygu a ph'un a ellir eu mesur. Er ei bod yn debygol y bydd y targed cyfredol yn cael ei fodloni, byddwn yn disgwyl ymestyn yr uchelgais o fewn amcan y targed.

Os nad yw Mesur Cymunedau yn Gyntaf yn ymarferol, byddai mesur o gyfranogiad yng Nghymru yn briodol. Gan ddefnyddio data myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn unig, gallai hyn ddefnyddio naill ai

- (a) dangosydd perfformiad y DU, sy'n defnyddio POLAR¹ ar gyfer cyfranogiad ifanc yn ogystal â chyfrifiad o brofiad blaenorol o AU i ddenu myfyrwyr hŷn;
- (b) y mesur cyfranogiad isel a ddefnyddir yn null cyllido cyfredol CCAUC, sy'n defnyddio POLAR ar gyfer cyfranogiad ifanc yn ogystal â chyfrifiad o gyfranogiad hŷn yn seiliedig ar lefel y sgiliau o fewn yr ardal ar lefel 4 ac uwch (gan ddefnyddio'r ddau gwintel isaf).

Byddem yn anelu at weld cynnydd mewn cyfranogiad yn erbyn y mesur a fabwysiadwyd. Gallem greu mesur sy'n nodi cyfranogiad ifanc a chyfranogiad hŷn ar wahân.

Gwnaethom ystyried p'un a ddylid cynnwys mesur o ddilyniant i fyfyrwyr gyda'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg i AU, y mesur sydd yn Rhaglen

¹ www.hesa.ac.uk/content/view/2379/#lowpart

Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae hyn eisoes yn destun monitro gan Lywodraeth Cymru ac, yn ogystal, nid oes gennym ddata ar hyn o bryd i fodelu hyn, ac felly ni fyddem am ei gynnwys o fewn y mesurau.

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur y cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus

- 2. Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestriadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13**

Cynigion:

Byddem am gadw mesur sy'n cwmpasu cyflawniad llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr llawn amser a rhan amser. O ystyried y cam i ffwrdd o gyllido yn seiliedig ar gredydau, gwnaethom ystyried a ddylid symud i ffwrdd o gwblhau modiwlau a defnyddio dangosyddion perfformiad y DU ar gyfer cwblhau lefelau cwrs - fodd bynnag, byddai'r rhain ond yn cwmpasu myfyrwyr amser llawn. Mae'r targed cyfredol, nad yw'n debygol y bydd yn cael ei fodloni, yn cwmpasu cwblhau modiwlau'n llwyddiannus, ond nid cwblhau amcanion dysgu yn llwyddiannus. Hoffem ddiwygio'r mesur uchod i gynnwys dim ond y modiwlau hynny lle mae amcanion dysgu yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus ac y caiff credyd ei ennill. Er mwyn gwneud hyn, o ystyried amserlen yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA), byddai angen i ni fesur y modiwlau hynny a gwblhawyd yn y flwyddyn, nid y rhai a ddechreuwyd yn y flwyddyn. Fel arall, gallem fesur y modiwlau hynny gyda chanlyniadau a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol (hy flwyddyn yn ôl). Er y byddai hyn yn ffocysu'r mesur ar lwyddiant dysgu, gallai achosi canlyniadau anfwriadol, er enghraifft, drwy annog sefydliadau i gynyddu cyfraddau pasio. Felly byddai hyn yn ddiwygiad sylweddol i'r mesur hwn a byddem yn croesawu sylwadau ar y newid hwn.

Mesurau eraill: Byddwn hefyd yn monitro perfformiad y sector yn erbyn dangosyddion ehangu mynediad eraill, gan gynnwys recriwtio myfyrwyr anabl; y rhai o leiafrifoedd ethnig; proffil oedran; ymadawyr gofal; dysgwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl; dosbarth economaidd gymdeithasol; a chyfranogiad gan ddynion.

Profiad y Myfyrwyr

Amcan: *Sicrhau bod profiad dysgu'r myfyrwyr o ansawdd rhagorol ac yn cael ei wella drwy lais y myfyriwr*

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur 'gwneir ymdrechion parhaus i gynnig profiad ardderchog i fyfyrwyr' a sicrhau bod 'addysg uwch yn cael ei chryfhau gan lais y myfyriwr'

- 3. Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol' yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU.**

Cynigion: Rydym yn disgwyl cadw targed cyfredol yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, sy'n gymharol i weddill y DU. Mae'n bosibl yr hoffem gael rhywbeth sy'n ffocysu ar feysydd eraill o holiadur yr arolwg a byddem yn croesawu sylwadau ar hyn, yn cynnwys a oes achos cryf dros gynnwys unrhyw faes penodol.

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur 'astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru'

- 4. Bydd nifer y myfyrwyr sy'n huanu o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,667 yn 2008/09 i 5600 yn 2012/13.**

Cynigion:

Rydym yn disgwyl diwygio'r targed hwn, mewn perthynas â'r nifer rydym am ei gyflawni o ran y rhai sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg (sydd i fod i godi, o ystyried y cymorth ychwanegol a ddarparwyd drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol) a thrwy elfen ychwanegol i adlewyrchu maint yr astudiaeth. Mae'r elfen olaf honno yn cael ei modelu, ond mae'n debygol o gwmpasu'r rheini sy'n astudio isafswm o 40 credyd neu fwy y flwyddyn. Gan ein bod yn defnyddio

nifer absoliwt, gallem ddileu'r cyfeiriad at 'hanu o Gymru' o'r diffiniad erbyn hyn a byddem yn croesawu sylwadau ar hyn.

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur rhyngwladoli addysg uwch yng Nghymru, drwy barhau i weld Cymru'n gwneud yn well na'r symudiad DU-eang o ran recriwtio myfyrwyr tramor

- 5. Bydd y twf canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr).**

Cynigion:

Rydym yn disgwyl cadw'r targed cyfredol ar gyfer recriwtio myfyrwyr tramor, sy'n cymharu'n dda â gweddill y DU ac sy'n mesur apêl sefydliadau Cymru fel darparwyr addysg uwch i fyfyrwyr rhyngwladol.

Rydym hefyd wedi ystyried cyflwyno mesur ychwanegol i gwmpasu ansawdd profiad myfyrwyr o dramor neu rhyngwladoli AU yng Nghymru, a byddem yn croesawu sylwadau ar p'un a fyddai hyn yn ddefnyddiol a sut y gellid mesur hyn gan ddefnyddio data cyhoeddus sydd ar gael eisoes.

Targed ychwanegol arfaethedig o dan Brofiad y Myfyriwr:

Mesur 'Gwneud y defnydd mwyaf priodol o dechnolegau digidol wrth gyflenwi addysg, hyfforddiant a chymorth i ddysgwyr' (Cynllun Cyflawni Cymru Ddigidol (2011))²

Hoffem gyflwyno targed yn seiliedig ar ddysgu digidol/hyblygrwydd i fyfyrwyr rhan amser a llawn amser. Un posibilrwydd fyddai defnyddio data HESA ar ddarpariaeth dysgu o bell. Efallai yr hoffem ystyried llythrennedd digidol. Byddem yn croesawu sylwadau ar y ffordd y gellid mesur hyn neu fesurau posibl eraill (a allai gysylltu'n gryfach ag ehangu mynediad neu sgiliau).

Mesurau eraill: Byddwn hefyd yn monitro perfformiad y sefydliadau mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys drwy ganlyniadau'r Arolwg

² wales.gov.uk/topics/businessandconomy/digitalwales/publications/110330delivery/?lang=en

Cenedlaethol o Fyfirwyr a deilliannau Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Byddwn hefyd yn monitro recriwtio yn erbyn targedau nifer sy'n dechrau hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Sgiliau

Amcan: *Sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fywyd a byd gwaith a bod prifysgolion yn cyflenwi gweithlu wedi'i uwchsgilio*

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur 'mae cyflogadwyedd yn un o ganlyniadau allweddol y profiad AU'

- 6. Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser-llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio, neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y DU erbyn 2012/13.**

Cynigion:

Rydym yn disgwyl cadw'r mesur hwn, sy'n gymharol â gweddill y DU. Fodd bynnag, mae'r mesur hwn, yn ei hanfod, yn fesur o gyflogaeth yn hytrach na chyflogadwyedd. Byddem yn croesawu barn ar sut y gellid mesur 'cyflogadwyedd'. Rydym hefyd yn nodi bod y mesur hwn ond yn berthnasol i fyfyrwyr amser-llawn. A ddylem gynnwys rhywbeth ar gyfer myfyrwyr rhan amser, ac os felly, sut y gellid mesur hyn gan ddefnyddio data cyhoeddus? A ddylem ddefnyddio targedau GO Wales? A ddylem ystyried data o arolwg DHLE, ac oes felly, sut? A allem ddefnyddio cronfa o gwestiynau ychwanegol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr? Byddem yn croesawu sylwadau ar hyn.

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

- 7. Mesur i ba raddau y mae mwy o bobl yng Nghymru, gan gynnwys ym Mlaenau'r Cymoedd, yn cael profiad o addysg uwch ac yn 'dysgu sgiliau lefel uwch':**

Erbyn 2012/13 bydd cynnydd o 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol yng nghyfradd cyfranogiad absoliwt myfyrwyr o bum awdurdod unedol Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru (o 2.5% i 2.7%).

Cynigion:

Rydym yn disgwyl cadw'r mesur hwn, nad yw wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn, i gwmpasu cyfranogiad ym Mlaenau'r Cymoedd (o ran cofrestriadau myfyrwyr mewn AU ledled Cymru) sy'n gymharol ag ardaloedd eraill o Gymru. Byddem yn croesawu sylwadau ar unrhyw fesurau eraill a allai gwmpasu cyfranogiad.

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Mesur i ba raddau y mae 'cyfleoedd dysgu rhan-amser gwell yn cael eu cynnig'

- 8. Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 57,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13**

Cynigion:

O ystyried ein cyngor cylch gwaith i'r Gweinidog yn 2012-13, a'r cynllun gweithredu rhan amser dilynol, yn seiliedig ar ddatblygiadau ehangu mynediad, ein nod yw symud y targed hwn i'r thema ehangu mynediad. Mae'n annhebygol y byddwn yn bodloni'r targed hwn a bydd angen i ni ystyried cyflwyno'r ffioedd a'r trefniadau cyllido rhan amser newydd. Rydym yn disgwyl datblygu targed a fydd yn olrhain twf neu ostyngiad yn y niferoedd rhan amser yn erbyn perfformiad mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym wedi ystyried a fyddai'n fwy realistig i eithrio'r rheini sydd â chymwysterau cyfwerth neu uwch, na fyddant yn gymwys i gael cymorth myfyrwyr, o'r data.

Rydym hefyd wedi ystyried p'un a fyddai targed mwy priodol mewn perthynas â datblygu sgiliau rhan amser yn ffocysu ar ddarpariaeth SAU a datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sydd mewn gwaith. Y data perthnasol fyddai'r ffigurau DPP o fewn HEBCIS (gweler isod), sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn ein dull cyllido Arloesedd ac Ymgysylltu.

Mae ein cylch gwaith, a'r Strategaeth Gwyddoniaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg ar lefel gradd. Yng ngoleuni'r Strategaeth Gwyddoniaeth, rydym wedi ystyried a fyddai'n briodol i gyflwyno targed addysg uwch STEM sy'n gysylltiedig â'n hamcanion strategol o ran Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter, er mwyn sicrhau bod addysg STEM yn cael ei chynnal a'i hymestyn yng Nghymru.

Mesurau eraill. Byddwn hefyd yn monitro cyflawni cymwysterau (credyd) ar lefel 4 ac uwch; cyfran y gweithlu sydd â chymwysterau ar lefel 4 ac uwch; recriwtio i STEM ac ieithoedd tramor modern; Cyrchfannau Myfyrwyr sy'n Gadael Addysg Uwch (DHLE); arolwg arhydol DLHE;

Dangosyddion Perfformiad perthnasol y DU, targedau GO Wales, a mesurau yn ein Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd.

Arloesedd ac Ymgysylltu

Amcan: Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Cael tystiolaeth o 'drosglwyddo gwybodaeth ac ymelwa ar eiddo deallusol mewn ffyrdd a all helpu i weddnewid economi Cymru'

- 9. Bydd cynnydd o 10% yn nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol staff a myfyrwyr sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf o 182 yn 2008/09 i 200 yn 2012/13**

Cynigion:

Cyflawnwyd y mesur hwn. Roedd dewis mesur unigol i gwmpasu ystod y gweithgaredd o dan yr amcan hwn yn anodd yn y strategaeth gyfredol, ac yn ddelfrydol hoffem gynnwys basged o fesurau i gwmpasu hyn. Un awgrym yw ffocysu ar y gyfran 5% arferol i'r DU a phennu targed i gyflawni'r gyfran hon ar draws ystod o 50%, dyweder, o ddangosyddion HEBCIS.

Hoffem wahodd sylwadau am gwmpas mesurau ar gyfer perfformiad yn y maes hwn a ph'un a fyddai mesur sy'n ystyried ystod y dangosyddion HEBCIS yn ymarferol.

Mesurau eraill: Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio basged o ddangosyddion o'r Arolwg Rhyngweithio Addysg Uwch – Busnes a Chymuned blynyddol (HEBCIS), yn benodol: Ymgynghori; Ymchwil dan gontract; Masnacheiddio eiddo deallusol (yn cynnwys cwmnïau deillio); Llogi cyfleusterau ac offer; DPP ac addysg barhaus; Amser academiaidd a dreuliwyd ar weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd; a Chyfranogiad mewn rhaglenni adfywio a datblygu.

Ymchwil

Amcan: *Sicrhau ymchwil ansawdd rhagorol i fod yn sail i'r economi wybodaeth a chefnogi cymdeithas sifil*

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Annog ymchwil mwy effeithiol drwy ganolbwyntio buddsoddiad ar feysydd o gryfder

- 10. Bydd y twf canrannol blynyddol mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triogel euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain).**

Cynigion:

Byddwn yn disgwyl cadw'r mesur hwn, sy'n gymharol â gweddill y DU. Rydym hefyd yn ymwybodol o darged incwm y Cyngor Ymchwil sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Gwyddoniaeth, ond sydd yn amcan ar gyfer y tymor hirach.

Rydym wedi modelu mesur ychwanegol yn seiliedig ar gyfanswm yr incwm ymchwil ar draws y DU sy'n gymharol â chyllid ymchwil o ansawdd (QR). Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn y sefyllfa yng Nghymru erbyn diwedd cyfnod y strategaeth.

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn mesur ansawdd ymchwil. Byddai dyfyniadau o fynegeion yn darparu mesur o'r fath ond byddai angen dibynnu ar ddata a brynwyd yn flynyddol gan gyflenwr masnachol ac mae'n bosibl na fydd hyn yn fforddiadwy yn yr hirdymor. Opsiwn arall fyddai cynnwys mesur sy'n gysylltiedig â pherfformiad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, a fyddai'n cael ei adrodd unwaith ar ddiwedd y strategaeth.

Byddem yn croesawu safbwyntiau ar ail fesur o dan yr amcan Ymchwil, wedi'i ffocysu ar ansawdd ymchwil.

Mesurau eraill: Byddwn hefyd yn monitro niferoedd y Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd; incwm ymchwil o ffynonellau heblaw am y Cynghorau Ymchwil; a'r swm o gyllid ymchwil cyhoeddus a enillir fel cyfran o gyllid QR (ymchwil o ansawdd) CCAUC a ddyrennir yn erbyn cymaryddion y DU

Ail-gyflunio a Chydweithio

Amcan: Cynhyrchu system addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch

Canlyniad yn y strategaeth gyfredol:

Pwrpas: Hybu ail-gyflunio pellach yn y sector addysg uwch, gan gynnwys 'cyfuno sefydliadau a chydweithio rhwng sefydliadau lle y bydd hyn yn cynyddu cryfder, gallu ac argaeledd addysg uwch o ansawdd uchel'.

- 11. Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU, ac ni fydd unrhyw sefydliad yn is na'r chwarter isaf erbyn 2012/13.**

Cynigion:

Rydym yn disgwyl cadw'r targed hwn ar gyfer y strategaeth gorfforaethol tan 2015-16.

Llywodraethu:

Amcan: Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y system addysg uwch

Canlyniadau:

Annog gwella effeithiolrwydd cyrff llywodraethu wrth iddynt lywio cyfeiriad strategol eu sefydliadau

12. Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddosbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.

Cynigion:

Rydym yn disgwyl cadw'r mesur hwn ar gyfer y strategaeth gorfforaethol newydd.

Mesurau eraill: Byddwn hefyd yn monitro'r perfformiad ariannol a rhagolygon y sefydliadau; data cofnodion yr Ystadau; a pherfformiad y sector mewn perthynas â chynaliadwyedd.

Gwahoddir adborth ar unrhyw fesurau eraill y dylem eu monitro yn cynnwys datblygiad cynaliadwy a lles yn benodol.

Effeithiolrwydd Sefydliadol:

Amcan: Bod yn sefydliad cost effeithiol sy'n cael ei redeg yn dda a fydd yn gweithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru a'r sector.

Cynigion:

Rydym yn disgwyl mesur ein perfformiad yn y maes hwn yn erbyn basged o fesurau wedi'u cynnwys o fewn ein cerdyn sgorio effeithiolrwydd sefydliadol. Yn ogystal â chwmpasu'r ystod lawn o dargedau'r strategaeth gorfforaethol, bydd hyn hefyd yn cynnwys dangosyddion fel trosiant staff a lefelau absenoldeb staff, arolwg staff, caffael ac arbedion costau rhedeg. Byddwn hefyd yn ystyried asesiadau allanol fel cynnal Buddsoddwyr mewn Pobl; ISO 27001 ac adolygiadau perfformiad a monitro perfformiad Llywodraeth Cymru. Gwnaethom gynnal ail arolwg o'n rhanddeiliaid yn 2012, sydd wedi llywio'r strategaeth hon, a byddwn yn cynnal arolwg pellach i randdeiliaid i asesu'n cynnydd yn 2015.